# Gŵyl Fwyd Caernarfon
# Polisi / Datganiad Iaith Gymraeg

## Nodau

Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar weithgareddau Gwyl Fwyd Caernarfon.

Wrth ddelio â'r cyhoedd, bydd Gwyl Fwyd Caernarfon yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Bydd gan y ddwy iaith yr un statws a'r un dilysrwydd.

Trwy wneud hynny, bydd Gwyl Fwyd Caernarfon:

- yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â Gwyl Fwyd Caernarfon;

- yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu safbwyntiau a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;

- yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o ymarfer da, nid yn gonsesiwn;

- yn cydnabod y gallai gwrthod yr hawl i bobl ddefnyddio eu dewis iaith eu gosod dan anfantais wirioneddol.

## Gohebiaeth ysgrifenedig

Bydd croeso i'r cyhoedd ddelio â Gwyl Fwyd Caernarfon trwy lythyr yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd unrhyw ohebiaeth a lofnodir gan Gwyl Fwyd Caernarfon yn cael ei gwneud yn ddwyieithog.

Bydd pob gohebiaeth a anfonir gan Gwyl Fwyd Caernarfon yn ddwyieithog.

Bydd unrhyw gylchlythyr neu lythyr safonol at y cyhoedd yn ddwyieithog.

## Cyfathrebu dros y Ffôn

Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â Gwyl Fwyd Caernarfon dros y ffôn.

## Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan Gwyl Fwyd Caernarfon, mae croeso i bawb siarad Cymraeg neu Saesneg, fel y mynnant. Os bydd maint yr

ystafell lle cynhelir y cyfarfod yn caniatáu hynny, defnyddir offer cyfieithu symudol, os bydd digon o arian ar gael.

Hysbysir y cyhoedd, mewn cyfarfodydd o'r fath, bod gwasanaeth cyfieithu ar gael, a bod croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith.

**Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

Pan fydd Gwyl Fwyd Caernarfon yn hysbysebu ei gweithgareddau yng Nghymru, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Pan fydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal gan Gwyl Fwyd Caernarfon, neu yn ei henw, bydd y deunyddiau arddangos ac unrhyw ddeunyddiau ategol megis hysbysebion, posteri, cyhoeddusrwydd, llenyddiaeth a thapiau fideo yn gwbl ddwyieithog.

**Nawdd a grantiau**

Yn achos sefydliadau, cyrff neu unigolion y bydd Gwyl Fwyd Caernarfon yn cydweithredu â hwy, neu yn achos partneriaethau rhwng Gwyl Fwyd Caernarfon ac unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn arall, bydd prosiectau neu bartneriaethau o'r fath yn darparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer y cyhoedd.

---

Nici Beech
Cadeirydd Gwyl Fwyd Caernarfon

*Mirain Llwyd Roberts*

---

Mirain Roberts
Ysgrifennydd Gwyl Fwyd Caernarfon

Dyddiad 26/02/2025